# Modiwlau MSc mewn Genomeg a ariennir gan AaGIC



## Cwestiynau cyffredin

Gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o fewn GIG Cymru gael mynediad at gyllid ar gyfer hyd at ddau fodiwl MSc annibynnol sy'n gysylltiedig â meddygaeth genomig. Darperir y rhain ar-lein gan Brifysgolion Caerdydd a Bangor.

Mae pob modiwl werth ugain credyd ac fe'i cyflwynir trwy raglenni hyblyg e-ddysgu ar-lein i ystyried ymrwymiadau proffesiynol a phersonol myfyrwyr.

I dderbyn eich cyllid, dilynwch y broses isod:

Nodwch a dilynwch weithdrefnau mewnol i gael cymeradwyaeth absenoldeb astudio.

(Gweler yr adran Cyswllt Allweddol am gymorth mewnol)

Gwnewch gais i'ch Prifysgol ddewisol ar gyfer y modiwl MSc o'ch dewis.

Bydd tîm addysg eich bwrdd iechyd yn rhoi llythyr o gadarnhad i chi.

Bydd angen i chi ddarparu copi o'r llythyr ariannu hwn i'r Brifysgol.

Cofrestrwch ar y cwrs.

Bydd y Brifysgol yn cadarnhau eich lle gydag AaGIC, a fydd wedyn yn darparu taliad uniongyrchol.

# Cwestiynau Cyffredin

## Rhagor o wybodaeth am y modiwlau MSc a ariennir gan AaGIC sy'n gysylltiedig â meddygaeth genomig:

**Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn falch o gynnig cyllid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol o fewn GIG Cymru i ymgymryd â modiwlau MSc mewn genomeg.**

Wedi'i gyflwyno gan Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Bangor mewn partneriaeth â Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (AWMGS) a Pharc Geneteg Cymru (WGP), mae'r modiwlau annibynnol wedi'u cynllunio i arfogi unigolion â'r sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen i lywio tirwedd genomeg sy'n esblygu'n gyflym mewn gofal iechyd, ni waeth beth fo'u maes ymarfer clinigol neu arbenigedd.

Genomeg yw astudio genynnau unigolyn er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o'i iechyd. Mae'r ddisgyblaeth yn cynnig cyfleoedd i wella gofal cleifion yn sylweddol, ac mae rhai ohonynt yn cynnwys:

- cynlluniau triniaeth personol
- diagnosis cynharach
- nodi risgiau iechyd eraill
- osgoi sgîl-effeithiau niweidiol o feddyginiaeth
- olrhain ac ymateb i achosion o haint, a
- darparu gwybodaeth am risg i gleifion ac aelodau o'u teuluoedd

Mae pob modiwl werth ugain credyd, a gyflwynir trwy raglenni e-ddysgu ar-lein hyblyg i ystyried ymrwymiadau proffesiynol a phersonol presennol myfyrwyr.

## Pa fodiwlau MSc sy'n cael eu hariannu?

**Modiwlau sydd ar gael drwy Brifysgol Caerdydd:**

- Genomeg clefydau etifeddol cyffredin a phrin
- Cymhwyso genomeg mewn clefydau heintus
- Technegau a thechnolegau omeg a'u cymhwysiad i feddygaeth genomig
- Patholeg foleciwlaidd canser a'i chymhwyso mewn diagnosis, triniaeth a monitro canser
- Cyflwyniad i'r sgiliau cwnsela a ddefnyddir mewn meddygaeth genomig
- Biowybodeg, dehongli a sicrhau ansawdd data mewn dadansoddi genomig

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Prifysgol Caerdydd:
Meddygaeth Genomig - Astudiaeth - Prifysgol Caerdydd

**Modiwlau sydd ar gael drwy Brifysgol Bangor:**

- Ffarmacogenomeg a gofal iechyd haenedig

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Prifysgol Bangor:
Ffarmacogenomeg a Gofal Iechyd Haenedig (Micro-gymhwyster) | Prifysgol Bangor

### Sut ydych chi'n cael lle wedi'i ariannu?

Gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o fewn GIG Cymru gael mynediad at gyllid ar gyfer hyd at ddau fodiwl MSc annibynnol sy'n gysylltiedig â meddygaeth genomig.

I gael lle wedi'i ariannu bydd angen i chi gael cymeradwyaeth i gwblhau'r cwrs gan eich tîm addysg lleol ac yna dilyn y broses uchod.

Am gyngor neu arweiniad ar broses eich bwrdd iechyd lleol ar gyfer cael cymeradwyaeth i gael lle wedi'i ariannu, gweler yr adran 'cysylltiadau allweddol' am ragor o wybodaeth.

## Cysylltiadau Allweddol

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

I gael rhagor o wybodaeth am weithdrefn eich bwrdd iechyd ar gyfer cael mynediad at gyllid, cysylltwch â:

abb.ahphseducationsla@wales.nhs.uk

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

I gael rhagor o wybodaeth am weithdrefn eich bwrdd iechyd ar gyfer cael mynediad at gyllid, cysylltwch â:

BCU.EducationACP@wales.nhs.uk

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

I gael rhagor o wybodaeth am weithdrefn eich bwrdd iechyd ar gyfer cael mynediad at gyllid, cysylltwch â:

Jenna.Mclaren@wales.nhs.uk

Carrie.Bodman@wales.nhs.uk

Lisa.Franklin@wales.nhs.uk

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

I gael rhagor o wybodaeth am weithdrefn eich bwrdd iechyd ar gyfer cael mynediad at gyllid, cysylltwch â:

Karen.Bryant-Davies@wales.nhs.uk

Rhian.J.Saurin@wales.nhs.uk

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

I gael rhagor o wybodaeth am weithdrefn eich bwrdd iechyd ar gyfer cael mynediad at gyllid, cysylltwch â:

studyleaveHDd@wales.nhs.uk

Mae canllawiau ar sut i wneud cais am gymeradwyaeth i astudio ar gyfer Dyfarniadau Uwch ar gael ar dudalen fewnrwyd Datblygu Pobl Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Defnyddiwch y ddolen ganlynol i gael mynediad at y canllaw hwn: Dyfarniadau Uwch

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

I gael rhagor o wybodaeth am weithdrefn eich bwrdd iechyd ar gyfer cael mynediad at gyllid, cysylltwch â:

PTHB.PCCAcademy@wales.nhs.uk Ceisiadau Gofal Sylfaenol

Clinical.Education.Powys@wales.nhs.uk Ceisiadau gweithwyr BIAP

## Iechyd Cyhoeddus Cymru

I gael rhagor o wybodaeth am weithdrefn eich bwrdd iechyd ar gyfer cael mynediad at gyllid, cysylltwch â:

Peoplesupport.phw@wales.nhs.uk

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

I gael rhagor o wybodaeth am weithdrefn eich bwrdd iechyd ar gyfer cael mynediad at gyllid, cysylltwch â:

Miranda.Williams@wales.nhs.uk

Ben.Sillman@wales.nhs.uk

Sian.Jones82@wales.nhs.uk

## Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

I gael rhagor o wybodaeth am weithdrefn eich bwrdd iechyd ar gyfer cael mynediad at gyllid, cysylltwch â:

Kerry.Robertson@wales.nhs.uk

Hannah.Lowther@wales.nhs.uk

Cyswllt WAST 111: Deborah.Armstrong@wales.nhs.uk

**Oes gennych chi gwestiwn? Cysylltwch â ni:** HEIW.Genomics@wales.nhs.uk